

PRIFYSGOL ABERTAWE

Adroddiad monitro cryno ar y Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer

Comisiynydd y Gymraeg

Blwyddyn Academaidd Awst 2016 - Gorffennaf 2017

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

CYNNWYS

	Tudalen
1. Cyflwyniad a phrif ddatblygiadau'r flwyddyn	2
2. Strwythurau Monitro	3
3. Dangosyddion perfformiad	5-13

CYFLWYNIAD

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol Prifysgol Abertawe gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 21 Tachwedd 2011. Tan 1 Ebrill 2018, pan gafodd Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol ei ddisodli gan Safonau'r Gymraeg, roedd y cynllun ar gael ar wefan y Brifysgol yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda chopïau ar gael ar gais hefyd oddi wrth Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn, a baratowyd ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg, yn amlinellu'r cynnydd o safbwynt Cynllun yr Iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn academaidd 2016-17.

Crynodeb o'r meysydd allweddol o gynnydd ac uchafbwyntiau 2016-17:

- Sefydlwyd Grŵp Safonau'r Gymraeg ym mis Ionawr 2017 a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd wedi hynny. Ceir presenoldeb da yn y cyfarfodydd a cheir cynrychiolaeth gymesur o blith yr Uwch Dîm Reoli, Colegau, Gwasanaethau Proffesiynol, Swyddfa'r Is-ganghellor ac Academi Hywel Teifi. Gwahoddir cynrychiolwyr o'r Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol i'r Grŵp Llywio yn ôl yr angen.
- Cynhaliwyd 13 o weithdai pwrpasol dwy-awr gydag aelodau allweddol o'r staff yn ystod hydref 2016, ym mhob coleg ac adran, lle trafodwyd manylder a goblygiadau Safonau'r Gymraeg. Llwyddodd y rhain i godi proffil Safonau'r Gymraeg ac roeddynt yn fan cychwyn trafodaethau dilynol a chyfleodd i Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg siarad mewn cyfarfodydd amrywiol.
- Er mwyn sicrhau ymhellach fod y Brifysgol fel corff yn cydnabod cyfrifoldeb am Safonau'r Gymraeg, erbyn hyn mae'r risgiau a amlinellir mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg yn ymddangos ar gofrestr risg pob Coleg a phob Uned Gwasanaethau Proffesiynol.
- Mae cyrsiau deuddydd 'Cymraeg cyfarch' a gynhelir ar gyfer staff rheng flaen (a ariennir gan Swyddfa Polisi'r Gymraeg) yn parhau. Cynhaliwyd pedwar cwrs yn ystod y flwyddyn, sef dwywaith nifer y flwyddyn flaenorol.
- Yn ogystal â chomisiynu'r cwrs Cyfarch, a chwrs graenus ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl ond sy'n llai hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, mae Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg yn cynnal sesiynau mewnol awr-o-hyd, 'Ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg' sydd â phresenoldeb da, ac yn darparu cyfle pellach i ymwreiddio cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.
- Datblygwyd cyrsiau Cymraeg wedi'u teilwra ar gyfer staff a myfyrwyr mewn meysydd penodol megis Gwaith Cymdeithasol. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithdai a diwrnodau blasu ar addysg cyfrwng Cymraeg ar draws ystod o bynciau, gan gynnwys Biowyddorau, Biocemeg, Ieithoedd Modern, Cymraeg, ac Iechyd a Gofal, a denwyd dros 300 o fyfyrwyr i ddiwrnod ar y Fagloriaeth Gymreig.
- Noddwyd GwyddonLe Eisteddfod yr Urdd, lle denwyd dros 30,000 o ymwelwyr, a Thafwyl Caerdydd unwaith yn rhagor.
- Roedd hi'n flwyddyn lwyddiannus tu hwnt i fyfyrwyr a graddedigion y Brifysgol: enillodd un o'n graddedigion, Rebecca Jones, Fedal y Dysgwyr Eisteddfod yr Urdd a death myfyrwraig

arall, Kayleigh Jones, yn ail. Cafodd 29 o ymgeiswyr lwyddiant yn Nhystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg, gyda 9 yn derbyn rhagoriaeth. Enillodd Aneirin Karadog Wobr Norah Isaac am y perfformiad gorau ar draws Cymru yn y Dystysgrif Sgiliau Iaith. Pennwyd tri o fyfyrwyr y Brifysgol yn Llysgenhadon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Brengain (Cyfryngau), Rhys (Peirianeg) a Lisa (Y Gyfraith). Enillodd Lewys Aron Wobr Ede and Ravenscroft 2016-17 am ei waith a'i gyfraniad fel llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe. Enillodd Yr Athro Siwan Davies wobwr anrhydeddus Fullbright i astudio yn yr Amerig am 6 mis. Roedd hyn ynghyd â pharhad ei hymddangosiad yn cyflwyno'r rhaglen deledu Her yr Hinsawdd ar S4C. Dyfarnwyd Gwobr Aur i'r Gymdeithas Gymraeg (Y GymGym) gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe a derbyniodd Alun Rennolf, Swyddog Iaith Gymraeg yr Undeb, wobwr Swyddog y Flwyddyn.

- Rhai o diwtoriaid Dysgu Cymraeg – Ardal Bae Abertawe, Academi Hywel Teifi a fu'n arwain cwrs Cymraeg Cymdeithas Madog yn Efrog Newydd eleni.
- Cyflwynwyd y cwrs Cymru Ddoe a Heddiw unwaith eto yn Nhŷ'r Gwrhyd, Pontardawe a Thŷ Tawe, Abertawe gan roi cyfle i ddysgwyr a siaradwyr iaith gyntaf ddod ynghyd i wrando ar a thrafod gydag amrywiaeth o arbenigwyr ar ystod eang o bynciau gwahanol.

MONITRO'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Mae monitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg ar draws y sefydliad, wedi parhau yn flaenoriaeth.

Strwythurau monitro ffurfiol

Gan ddechrau ym mis Ionawr 2017, mae **Grŵp Llywio Safonau'r Gymraeg** yn goruchwyllo prosesau ymgynghori ar, a gweithredu Safonau'r Gymraeg, mae nifer llai o aelodau yn y grŵp hwn, sydd â rolau mwy penodol, ac mae'r grŵp hwn yn disodli grŵp monitro'r Gymraeg. Cadeirir Grŵp Llywio Safonau'r Gymraeg gan yr Athro Iwan Davies, Uwch-ddirprwy Is-ganghellor gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg, ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o Fwrdd Reoli'r Brifysgol (Colegau), cynrychiolaeth o'r Tîm Gwasanaethau Proffesiynol, cynrychiolaeth o Academi Hywel Teifi, a Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r grŵp yn goruchwyllo'r broses o ymgynghori a gweithredu Safonau'r Gymraeg.

Mae'r gwaith parhaol o gefnogi a gweithredu'r Cynllun Iaith yn cael ei wneud gan **Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg**, sef swydd sy'n cael ei rhannu rhwng dwy aelod staff rhan-amser: Nia Besley ac Emily Hammett (cyfanswm o 1.3FTE).

Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi sy'n arwain y gwaith o ddatblygu'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg. Rôl **Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg** yw datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer defnydd y Gymraeg a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r pwyllgor yn cwrdd unwaith y tymor ac mae'n adrodd i'r Senedd. Mae Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg, yn mynychu'r cyfarfodydd er mwyn adrodd i'r aelodau, gan gynnwys ar faterion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol i staff academaidd.

Mae rhwydwaith o **Gydlynwyr Safonau'r Gymraeg**, sydd â chynrychiolaeth o bob coleg ac adran weinyddol, yn parhau i gynorthwyo Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg ar sail wirfoddol, wrth hwyluso, cyfathrebu a monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

DANGOSYDDION PERFFORMIAD

Dangosydd perfformiad 1: Nifer a % y staff gweinyddol sy'n medru siarad Cymraeg fesul adran/ysgol/coleg a/neu fesul gradd y swydd;

Nifer a % o staff gweinyddol sy'n siarad Cymraeg (pob lefel): 623 (478 yn 2015-16) = 42.03% (39.3% yn 2015-16)

Yn gallu siarad ychydig o Gymraeg – 450 (357 yn 2015-16) = 30.36%

Yn gallu siarad Cymraeg yn eithaf da - 64 (53 yn 2015-16) = 4.32%

Yn rhugl - 109 (77 yn 2015-16) = 7.35 %

(Cyfanswm staff gweinyddol = 1482; 1216 yn 2015-16)

Mae'n werth nodi bod 39 aelod o staff (2.63%) wedi dewis 'gwell gennyf beidio â dweud', dywedodd 783 (52.83%) 'ddim o gwbl', ac mae ffigwr o 37 (2.5%) yn y categori 'anhysbys'.

Cofnodir gallu ieithyddol staff newydd fel arfer wrth iddynt ymuno â'r Brifysgol, drwy ffurflen fanwl y gofynnir i staff newydd ei chwblhau. Mae'r ffurflen yn cynnwys cwestiynau am eu gallu i ddarllen, ysgrifennu, siarad a deall y Gymraeg, yn ogystal â gallu staff academiaidd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae staff yn gallu diweddarur'r wybodaeth ar unrhyw adeg, er enghraifft os ydynt yn dysgu Cymraeg.

Fel rhan o strategaeth cyfathrebu Safonau'r Gymraeg, cysylltir ag aelodau staff yn eu hannog i ddiweddu/nodi eu gallu yn y Gymraeg, a hefyd eu hannog i nodi eu dewis iaith at gyfer gohebiaeth.

Gwelir o'r ystadegau uchod bod cynnydd wedi bod yn nifer y staff gweinyddol sy'n siarad Cymraeg, ond cwmp bach o safbwynt canran y siaradwyr Cymraeg. Gwelir twf addawol yn nifer y siaradwyr rhugl.

Dyma'r manylion fesul adran/ysgol/coleg:

Coleg/Cyfarwyddiaeth	Dim o gwbl	Ychydig	Eithaf da	Yn rhugl	Gwell gennyf beidio â dweud	Anhysbys	Cyfanswm
Partneriaethau Academaidd	4	2	1	1			8
Gwasanaethau Academaidd	38	22	6	12	1		79
Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau	29	20	3	11	1	1	65
Coleg Peirianeg	74	40	6	5	1	6	132
Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd	51	22	1	6			80
Coleg Gwyddoniaeth	43	19	4	5	1	1	73
Ystadau	65	37	3	7	5	3	120

Cyllid	29	15	2	3	2		51
Ymgysylltu Byd-eang	68	41	11	8		3	131
Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton	11	5				1	17
Adnoddau Dynol	33	19	1	9		2	64
Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau	109	74	10	20	7	1	221
Anhysbys	1						1
Arall	1						1
Yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol	13	13		2			28
Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi	44	17	4	4	2	1	72
Yr Ysgol Reolaeth	29	20	2	2	4	3	60
Gwasanaethau Myfyrwyr	58	34	7	4	2	2	107
Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe	70	41	3	8	12	12	146
Swyddfa'r Is- ganhellor	13	9		2	1	1	26
Cyfanswm	783	450	64	109	39	37	1482

Coleg/Cyfarwyddiaeth	Dim o gwbl	Ychydig	Eithaf da	Yn rhugl	Gwell gennyf beidio â dweud	Anhysbys	Cyfanswm
Partneriaethau Academaidd	50.00%	25.00%	12.50%	12.50%	0.00%	0.00%	100.00%
Gwasanaethau Academaidd	48.10%	27.85%	7.59%	15.19%	1.27%	0.00%	100.00%
Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau	44.62%	30.77%	4.62%	16.92%	1.54%	1.54%	100.00%
Coleg Peirianeg	56.06%	30.30%	4.55%	3.79%	0.76%	4.55%	100.00%
Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd	63.75%	27.50%	1.25%	7.50%	0.00%	0.00%	100.00%
Coleg Gwyddoniaeth	58.90%	26.03%	5.48%	6.85%	1.37%	1.37%	100.00%
Ystadau	54.17%	30.83%	2.50%	5.83%	4.17%	2.50%	100.00%
Cyllid	56.86%	29.41%	3.92%	5.88%	3.92%	0.00%	100.00%
Ymgysylltu Byd-eang	51.91%	31.30%	8.40%	6.11%	0.00%	2.29%	100.00%
Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton	64.71%	29.41%	0.00%	0.00%	0.00%	5.88%	100.00%
Adnoddau Dynol	51.56%	29.69%	1.56%	14.06%	0.00%	3.13%	100.00%
Gwasanaethau Gwybodaeth a	49.32%	33.48%	4.52%	9.05%	3.17%	0.45%	100.00%

Systemau							
Anhysbys	100.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	100.00%
Arall	100.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	100.00%
Yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol	46.43%	46.43%	0.00%	7.14%	0.00%	0.00%	100.00%
Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi	61.11%	23.61%	5.56%	5.56%	2.78%	1.39%	100.00%
Yr Ysgol Reolaeth	48.33%	33.33%	3.33%	3.33%	6.67%	5.00%	100.00%
Gwasanaethau Myfyrwyr	54.21%	31.78%	6.54%	3.74%	1.87%	1.87%	100.00%
Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe	47.95%	28.08%	2.05%	5.48%	8.22%	8.22%	100.00%
Swyddfa'r Is-ganghellor	50.00%	34.62%	0.00%	7.69%	3.85%	3.85%	100.00%
Cyfanswm	52.83%	30.36%	4.32%	7.35%	2.63%	2.50%	100.00%

Dangosydd perfformiad 2:

Nifer y swyddi gweinyddol a hysbysebwyd fel 'Cymraeg yn hanfodol' – 8

Cyfanswm y swyddi academiaidd a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg - 72

Canran o'r swyddi cyfan a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg – 6.3%

Mae'r mwyafrif helaeth o swyddi eraill yn cael eu hysbysebu fel 'Cymraeg yn ddymunol' heblaw am achosion prin ble nad yw sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn berthnasol.

Cynhelir cyfarfodydd pythefnosol gyda'r adran Adnoddau Dynol er mwyn atgyfnerthu gofynion Safonau'r Gymraeg o safbwynt y prosesau/technegol ac hefyd i sicrhau bod partneriaid busnes AD (sy'n gyfrifol am recriwtio) yn deall y strwythur newydd yn llawn ac yn gallu ei rhoi ar waith.

Mae Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg yn monitro rhestr o swyddi sydd ar fin cael eu hysbysebu er mwyn gwirio, a herio lle bo'n briodol, y gofynion am sgiliau Cymraeg.

Dangosydd perfformiad: Nifer a % o staff gweinyddol a fynychodd cyrsiau Cymraeg yn ystod y flwyddyn: 128 (8.6% o'r holl staff gweinyddol)

Dangosydd perfformiad 6: Nifer a % o staff academiaidd a fynychodd cyrsiau Cymraeg yn ystod y flwyddyn, a ariannwyd yn llawn gan y Brifysgol – 22 (1% o'r holl staff academiaidd)

Mae'r cyrsiau yn cynnwys cyrsiau a drefnir gan ganolfan 'Dysgu Cymraeg - Bae Abertawe' yn y Brifysgol, yn ogystal â chysiau wedi'u teilwra, megis y Cwrs Cyfarch (2 ddiwrnod) ar gyfer staff sy'n ddechreuwr pur, neu'r cwrs 'Rhoi sglein ar eich Cymraeg' (20 awr dros 10 sesiwn) ar gyfer staff rhugl sydd eisieu gwell eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Erbyn hyn cynhelir cyrsiau Cymraeg cyfarch i ddechreuwr ar gampysau Singleton a'r Bae ddwywaith y flwyddyn, gan olygu bod nifer y mynychwyr wedi mwy na dyblu, o 18 yn 2015/16 i 39 yn 2016/17.

Mynychodd 128 o staff gweinyddol a 22 o academyddion hyfforddiant yn y Gymraeg, fel a ganlyn:

Cyrsiau Cymraeg yn y gweithle (a ddarperir gan Ddysgu Cymraeg Bae Abertawe yn benodol i staff y Brifysgol)

Lefel	Cofrestriad	Gweinyddol	Academaidd
Cyfarch	39	37	2
Dysgu Cymraeg Bae Abertawe (Mynediad a Sylfaen)	99	83	16
Graenus	12	8	4

Wedi'u rhannu fesul coleg/adran, mae'r ffigurau a ganlyn:

Staff gweinyddol

Adran / Ysgol	Cyfarch	Dysgu Cymraeg Bae Abertawe	Graenus	Cyfanswm
Adran Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr	3	5	1	9
Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton		2		2
Coleg Peirianeg	3	9		12
Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau	15	21		36
Cyllid		2		2
Coleg Gwyddoniaeth	3	4	1	8
Yr Ysgol Reolaeth	1	8		9
Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau		3		3

Yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol	2	2	1	5
Swyddfa'r Is-ganghellor	3	4		7
Ystadau a Rheoli Cyfleusterau	2	2		4
Ymgysylltu Byd-eang	1	8	1	10
Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd	2	5		7
Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe	2	2	1	5
Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi		3	2	5
Adnoddau Dynol		1	1	2
Gwasanaethau Academaidd		2		2
Cyfanswm	37	83	8	128

Staff academaidd

Adran / Ysgol	Cyfarch	Dysgu Cymraeg Bae Abertawe	Graenus	Total
Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau		5		
Adran Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr		1		
Coleg Gwyddoniaeth			2	
Coleg Peirianeg	2	3		
Canolfan Llwyddiant Academaidd		1		
Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton		2	2	
Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd		4		
Cyfanswm	2	16	4	22

Dangosydd perfformiad 4 :

Nifer a % o staff academaidd sy'n gallu siarad Cymraeg (pob lefel): 485 (411 yn 2015-16) 411) = 30% (31% yn 2015-16)

Yn gallu siarad ychydig o Gymraeg - 260 (213 yn 2015-16) = 16.1%

Yn gallu siarad yn eithaf da - 52 (46 yn 2015-16) = 3.2%

Yn rhugl – 173 (152 yn 2015-16) = 10.8%

(Cyfanswm staff academaidd = 1606)

Mae'n werth nodi bod 83 (5.2%) aelod staff wedi dewis 'gwell gennyf beidio â dweud', dywedodd 976 (60.8%) 'ddim o gwbl', ac mae ffigwr o 62 (3.9%) yn y categori 'anhysbys'.

Er bod cynnydd yn nifer y staff academaidd sy'n medru'r Gymraeg, mae'r ganran wedi cwmpo ychydig, o 31% i 30%.

Yn fuan bydd Swyddogion Polisi a Hyrwyddo'r Gymraeg yn cysylltu â'r holl staff yn gofyn iddynt nodi eu dewis iaith ar eu cofnod staff. Bydd yr ohebiaeth hefyd yn gofyn i staff sicrhau eu bod nhw hefyd wedi nodi eu gallu ieithyddol.

Er bod y Cwrs Cyfarch yn denu llai o academyddion, mae'r cwrs graenus sy'n cael ei gynnal dros 10 wythnos ar gyfer staff sy'n rhugl ond sydd angen mwy o hyder yn eu Cymraeg wedi denu rhai academyddion dros y blynyddoedd diwethaf, ac fe adlewyrchir eu hyder newydd yn y categori 'rhugl' o bosibl.

Dangosydd perfformiad 5 :

Nifer o staff academaidd sydd yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg - 109 (89 yn 2015-16)

Nifer o staff academaidd sydd â'r gallu i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg - 151 (127 yn 2015-16)

Mae'r nifer o staff academaidd sy'n dysgu trwy'r Gymraeg, mewn unrhyw ffurf, wedi cynyddu, ac mae hyn yn adlewyrchu'r ymdrechion i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y Brifysgol.

Y cwestiwn a ofynnir i staff academaidd yw: *Nodwch isod eich gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a ph'un a yw'ch contract yn cynnwys addysgu trwy'r Gymraeg. HESA sy'n gofyn am y wybodaeth hon, a chaiff ei rhannu â HEFCW.*

Dangosydd perfformiad 7: Nifer a % y polisiâu newydd oedd yn destun asesiad effaith ieithyddol: 6 (100%)

Mae'n ofynnol i holl bwyllgorau'r Brifysgol gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb o bob polisi a menter newydd cyn gofyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y pwyllgorau. Mae hwn yn ofyniad a gyflwynwyd gyntaf yn 2012.

Er mwyn sicrhau yr ystyrir effaith polisiâu a mentrau newydd ar y Gymraeg, mae dogfennaeth Asesu Effaith Cydraddoldeb yn cyfeirio at y Gymraeg, gan ofyn:

“O safbwynt cydraddoldeb a'r Gymraeg, beth yw'r pethau positif posibl y polisi/newidiadau i'r nodweddion gwarchoddedig (dylech gyfeirio at y canllaw ychwanegol ar y tudalennau nesaf i weld y rhestr o'r 9 nodwedd warchoddedig?”

Cafodd y polisiâu canlynol eu hasesu yn ystod y cyfnod, ac ni chafwyd unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg:

1. Rheoli Presenoldeb – 03.05.2017
2. Polisi ac Ordinhad Ymddygiad a Disgyblu - 22.05.2017
3. Polisi ac Ordinhad Cwynion Cyflogaeth - 22.05.2017
4. Mannau Dysgu a Chreadigol y Taliesin – 31.05.2017
5. Cynllun Ffioedd a Mynediad - 13.06.2017
6. Polisi Galluogrwydd – 20.07.2017

Mae'r templed asesu effaith cydraddoldeb ar ei newydd wedd wedi bod ar wait hers mis Tachwedd 2017. Mae'n cynnwys adran ychwanegol sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg at y dyfodol.

Dangosydd perfformiad 8: Nifer a % y cytundebau a gafodd eu monitro, a oedd yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.

Oherwydd natur amrywiol y Brifysgol, y nifer fawr o gytundebau a reolir, a'r ffaith bod nifer o benderfyniadau prynu wedi'u datganoli i adrannau unigol, mae hi'n anodd cynnig data cyflawn yma.

Serch hynny, mae gweithdrefnau yn eu lle, trwy'r rhestr cyflenwyr a ffafrir, a thrwy gyfeiriad at y Cynllun Iaith mewn dogfennaeth tendro arferol, i sicrhau bod gofynion iaith y Brifysgol wedi'u cynnwys mewn cytundebau trydydd parti lle bo'n briodol. Mae'r swyddogion sydd â chyfrifoldeb am y cytundebu hefyd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau'r cytundeb.

Gan gychwyn ar 1 Ebrill 2018, cyfeirir at Safonau'r Gymraeg, ac mae gofynion sy'n ymwneud â chaffael o dan y Safonau wedi cael eu cyfathrebu ymhlith staff.

Dangosydd perfformiad 9: Nifer o gwynion a dderbyniwyd sy'n ymwneud â gweithredu'r Cynllun a % y rhai a gafodd eu trin yn unol â safonau a gweithdrefnau cwyno corfforaethol: 8

Cafodd pob cwyn ei thrin yn unol â safonau a gweithdrefnau cwyno corfforaethol. Rhestrir y cwynion isod.

Dyddiad / Cyfnod	Natur y gŵyn	Canlyniad cychwynnol	Newid gweithdrefnol
01/09/2016	Dogfen uniaith-Saesneg yn ymwneud â chyflogaeth wedi'u rhoi i staff Cymraeg eu hiaith	Cyfieithu a dosbarthu'r ddogfen	DOgfennau contranciol yn ddwyieithog o hynny ymlaen - rhai yn unol ag amserlen Safonau'r Gymraeg lle bo angen
06/09/2016	Hysbysiadau presenoldeb yn uniaith-Saesneg	Roedd newid ar fin digwydd i'r system – byddai hysbysiadau newydd yn ddwyieithog	Hysbysiadau dwyieithog yn cael eu hanfon o hynny ymlaen
04/10/2016	Adroddiad a ffurflen ganlyniadau ddim ar gael yn y Gymraeg	Cyhoeddwyd y ffurflen gywir	Ffurflenni Cymraeg ar gael lle bo angen
12/12/2016	Cylchgrawn uwchraddedigion SAIL un uniaith Saesneg	Cafodd ei gyfieithu a'i roi i'r unigolyn	Caiff y cyhoeddiad ei gynhyrchu'n ddwyieithog i'r dyfodol
26/06/2017	Camgymeriadau ar bosteri Cymraeg cynhadledd LGBT	Cywirwyd	Cywirwyd
Nifer o enghreifftiau	Gohebiaeth uniaith-Saesneg wedi'i rhoi i fyfyrwyr mewn carfan benodol	Wedi trafod gyda'r unigolyn dan sylw a'i atgoffa bod gwasanaeth cyfieithu ar gael	Cywirwyd
Nifer o enghreifftiau	Gohebiaeth uniaith-Saesneg wedi'i rhoi i'r holl staff	Wedi trafod gyda'r unigolyn dan sylw a'i atgoffa bod gwasanaeth cyfieithu ar gael	Cywirwyd
Nifer o enghreifftiau	Arwyddion Cymraeg anghywir	Wedi trafod gyda'r unigolyn dan sylw a'i atgoffa bod gwasanaeth cyfieithu/proflen ar gael	Cywirwyd